BRITISH TRANSPORT POLICE

STOPIO A CHWILIO

Ein neges i'r gymuned 2016

Cyhoeddwyd Mawrth 2017

Cynnwys

Ein gweledigaeth	3
Pam ydym yn defnyddio stopio a chwilio?	4
Ein nodau	5
Ein gweithgarwch stopio a chwilio	6
Ymgysylltu â phobl ifanc	14
Ein taith	15
Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol	16
Cysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol	18

Ein gweledigaeth

Un o'n prif nodau fel yr heddlu arbenigol ar gyfer y rheilffordd yw helpu i leihau troseddu a chadw'r miliynau o deithwyr sy'n ei defnyddio bob dydd yn ddiogel rhag niwed.

Gall y pŵer i stopio a chwilio rhywun, pan gaiff ei ddefnyddio'n deg, yn broffesiynol ac yn effeithiol, helpu swyddogion heddlu i ganfod eiddo wedi'i ddwyn, a darganfod cyllyll neu arfau ac unrhyw eitemau eraill a all achosi niwed. Hefyd, gall atal yr angen i arestio rhywun os bydd swyddogion heddlu'n fodlon nad oes seiliau i bryderon sydd ganddyn nhw ynghylch ymddygiad rhywun.

Fodd bynnag, os na fyddwn ni'n gwneud hyn yn iawn, os bydd swyddogion heddlu'n anghwrtais neu'n anegwyddorol yn eu hymagwedd, gall ein gweithredoedd olygu y bydd pobl yn llai hyderus ein bod yn gweithredu er budd y cyhoedd.

Ein nod yw trin pawb â thegwch a pharch. Bydd ein swyddogion heddlu'n eich chwilio os bydd yn gwbl angenrheidiol yn unig. Dylen nhw ddweud wrthych pam byddwch yn cael eich chwilio fel y gallwch ddeall beth yw'r rhesymau dros y chwiliad, a beth yw eu 'seiliau rhesymol'. Byddwn yn cynnal gwiriadau i sicrhau bod ein swyddogion heddlu wedi esbonio'r seiliau rhesymol ichi, gan ofyn iddyn nhw esbonio pam os na fyddan nhw wedi gwneud hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch pam rydym yn defnyddio pwerau stopio a chwilio ac yn rhoi crynodeb o weithgarwch a gynhaliwyd yn 2016.

Hefyd mae arnom angen eich help i sicrhau ein bod yn defnyddio stopio a chwilio yn y dull gorau bosibl. Gallwch chi roi gwybod inni beth yw eich barn am ein hymagwedd tuag at stopio a chwilio, neu ofyn am fynd ar batrôl gyda'n swyddogion heddlu fel rhan o'n cynllun arsylwi patrolau (er na allwn ni roi sicrwydd y byddwch chi'n gweld enghraifft o stopio a chwilio) trwy e-bostio**stopsearch@btp.pnn.police.uk** neu ysgrifennu atom (cyfeiriad ar dudalen olaf yr adroddiad hwn).

Os ydych chi'n dymuno cyfranogi rhagor, byddem yn eich annog i ymuno ag un o'n grwpiau cymunedol annibynnol ledled y wlad sy'n archwilio sut rydym yn defnyddio stopio a chwilio ac yn gyda ni i wneud gwelliannau.

Adrian Hanstock
Dirprwy Brif Gwnstabl

Pam ydym yn defnyddio stopio a chwilio?

Mae'r pŵer i stopio a chwilio rhywun yn offeryn pwysig yn ein brwydr yn erbyn troseddu. Fodd bynnag, rydym yn nodi ei fod yn bŵer ymwthiol y mae'n rhaid ei ddefnyddio'n gyfrifol ac yn briodol neu byddwn ni'n colli'ch hyder yn ein gallu i'ch cadw'n ddiogel a lleihau troseddu.

Mae pwerau stopio a chwilio ar gael i bob swyddog heddlu ac fe'u disgrifir yn fanwl yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) Cod A.

Disgwylir i'n swyddogion heddlu ddeall y ddeddf a sut dylid ei gweithredu yn ymarferol. Diffinnir pwrpas stopio a chwilio fel '*galluogi swyddogion i leddfu neu gadarnhau amheuon ynghylch unigolion heb arfer eu pŵer i arestio*'. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gall fod yn fwy effeithiol i swyddogion heddlu gynnal ymchwiliad trwy chwilio rhywun am dystiolaeth o drosedd heb orfod eu harestio a mynd â nhw i orsaf heddlu. Yn dibynnu ar a fyddan nhw'n canfod rhywbeth, byddan nhw'n gallu gwneud dewisiadau ynghylch sut i ddelio â rhywun a allai fod wedi cyflawni trosedd.

Byddwn ni'n gofyn i'r person sy'n cael ei chwilio am rai manylion oherwydd bydd hyn yn ein helpu i wirio a ydym ni'n defnyddio stopio a chwilio yn deg ac nad ydym ni'n chwilio'r un bobl yn rheolaidd, neu yr ymddengys ein bod yn canolbwyntio ar un gymuned yn fwy nag eraill. Ni fydd rhaid iddyn nhw ddarparu unrhyw fanylion os nad fyddan nhw'n dymuno gwneud hynny.

Mae'n rhaid i'n gweithgarwch stopio a chwilio fod yn gyfreithlon a thryloyw. Mae cyfreithlondeb plismona'n gysyniad hirsefydlog yn y DU ac fe'i gelwir yn 'blismona trwy ganiatâd'. Mae hwn yn gysyniad allweddol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae'r heddlu wedi cael caniatâd neu 'fraint' i ddal nifer o bwerau ymwthiol, er enghraifft, trwy ddefnyddio grym neu fynd â phobl i'r ddalfa. Felly mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r pwerau hyn yn deg, yn effeithiol ac yn gyfreithlon, a'n bod yn trin pobl â pharch.

Os ydym ni am fod yn effeithiol ac effeithlon, bydd rhaid inni ddibynnu ar gydweithrediad a chefnogaeth y cyhoedd. Po fwyaf byddwch yn ymwneud â'n cefnogi ni, trwy ddarparu gwybodaeth ynghylch troseddu neu'n ymwneud â chraffu ar ein gweithgareddau (megis mynd ar batrôl gyda'n swyddogion heddlu neu ymuno ag un o'n grwpiau ymgynghori cymunedol) po fwyaf y gallwn ni weithio gyda'n gilydd i gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu.

Ein nodau

Beth ydym ni'n dymuno ei wneud?

Mae arnom ni eisiau defnyddio stopio a chwilio'n deg, yn effeithiol ac yn gyfreithlon a hefyd i bobl weld ein bod yn gwneud hyn. Rydym ni'n credu ein bod yn fwyaf tebygol o gyflawni hyn a chanlyniadau cadarnhaol i gefnogi diogelwch y cyhoedd pan:

- fydd y stopio a chwilio'n gyfiawn, cyfreithlon ac yn gallu gwrthsefyll craffu annibynnol
- bydd gan y swyddog heddlu amheuon dilys a gwrthrychol resymol y bydd yn canfod rhywbeth gwaharddedig neu eitem i'w defnyddio mewn trosedd
- bydd y sawl sy'n cael ei chwilio'n deall pam ei fod wedi'u chwilio ac yn teimlo ei fod wedi'i drin â pharch
- bydd y chwiliad yn ofynnol a dyna'r dull mwyaf priodol y gallai'r swyddog heddlu ganfod a oedd gan y sawl sy'n cael ei chwilio y fath eitem neu beidio.

Beth nad ydym ni'n dymuno ei wneud?

- Defnyddio stopio a chwilio heb allu disgrifio ein seiliau rhesymol
- Creu drwgdybiaeth mewn cymunedau penodol neu gydag aelodau unigol o'r cyhoedd a allai deimlo eu bod yn cael eu targedu heb gyfiawnhad neu'n cael eu trin yn annheg fel arall
- Eich gorlwytho â gwybodaeth sy'n anodd ei deall, er ein bod yn trefnu bod data manwl ar gael ar ein gwefan ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn cael gwybod rhagor ynghylch ein defnydd o stopio a chwilio.

Beth allwch chi ei wneud?

- Ein herio os na fyddwch yn deall pam byddwn yn stopio a chwilio pobl neu os na fyddwch yn deall pam eich bod chi neu rywun arall wedi'i stopio a chwilio
- Ein helpu i sicrhau ein bod yn atebol trwy gyfranogi yn ein cynllun arsylwi patrolau neu mewn grwpiau cymunedol ledled y wlad
- Cyfrannu at ddatblygiad plismona trwy ychwanegu'ch barn at ein harolygon

Ein gweithgarwch stopio a chwilio

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid inni gasglu rhywfaint o wybodaeth ynghylch ein defnydd o bwerau stopio a chwilio. Rydym yn trefnu bod hon ar gael, ar ôl dileu manylion, fel gall pobl wirio sut ydym yn defnyddio stopio a chwilio

Faint o bobl bydwch chi'n eu stopio a chwilio?

Yn 2012, fe wnaethon ni stopio a chwilio 9,443 o bobl.
Yn 2016, fe wnaethon ni stopio a chwilio 2,995 o bobl.

Yn 2016, canfyddwyd gwrthrych 31% o'r amser

Pam ydych chi'n defnyddio stopio a chwilio'n llai?

Yn 2015 cafodd y Codau Ymarfer ar y defnydd o stopio a chwilio eu diweddaru gan newid ystyr 'amheuon rhesymol' i'w wneud yn glir i swyddogion heddlu beth mae'n rhaid iddyn nhw ei ystyried cyn defnyddio'r pŵer sylweddol hwn, a chanlyniadau posibl unrhyw gamddefnydd o'u hawdurdod. Mae'r Codau adolygedig yn datgan *"…mae'n rhaid i'r swyddog fod wedi ffurfio amheuon dilys yn ei feddwl ei hunan y bydd yn canfod y gwrthrych... yn seiliedig ar ffeithiau, gwybodaeth neu gudd-wybodaeth sy'n berthnasol i'r tebygolrwydd y bydd y gwrthrych dan sylw yn cael ei ganfod*".

Trwy ymuno â Chynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio'r Llywodraeth (BUSSS), rydym wedi cytuno i archwilio effaith stopio a chwilio, a sicrhau ei fod yn ddeallus ac yn canolbwyntio'n well ar droseddau sy'n effeithio fwyaf ar y cyhoedd neu sy'n cael eu cyflawni mewn ardaloedd lle mae lefel uwch o droseddu.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r holl gamau gorfodi rydym yn eu cymryd gael eu cyfiawnhau'n llawn serch hynny, a rhaid iddyn nhw fod er lles y cyhoedd. Atgyfnerthir hyn yn ein hanimeiddiad yn esbonio pam rydym yn defnyddio stopio a chwilio.

Faint o bobl fyddch chi'n arestio o ganlyniad i stopio a chwilio?

Yn 2012, fe wnaethom ni arestio 825 o bobl o ganlyniad i stopio a chwilio, a oedd yn gyfwerth i 9% o'r holl bobl y gwnaethon ni eu stopio a chwilio yn y flwyddyn honno. Yn 2016, fe wnaethon ni arestio 467 o bobl o ganlyniad i stopio a chwilio, a oedd yn cynrychioli 16% o'r holl bobl y gwnaethom ni eu stopio a chwilio yn y flwyddyn honno. Mae hyn yn ein helpu i arddangos ein bod wedi dechrau canolbwyntio'n fwy yn ein defnydd o stopio a chwilio a pheidio ag arestio pobl oni bydd pryderon difrifol ynghylch y gwrthrychau byddan nhw'n eu cario.

Am beth byddwch chi'n arestio pobl?

Yn 2016, y tri rheswm mwyaf cyffredin am arestio yn dilyn stopio a chwilio oedd:

1) Canfod sylweddau anghyfreithlon neu eitemau eraill cysylltiedig â chyffuriau (39%)

2) Rhesymau eraill, gan gynnwys bod heddlu arall yn chwilio am rywun (24%)
3) Canfod eiddo wedi'i ddwyn (21%).

Os na fyddwch yn arestio pobl pan fyddwch yn eu stopio a'u chwilio beth fydd yn digwydd iddyn nhw?

Ni fydd achlysur llwyddiannus o stopio a chwilio, pan fyddwn ni'n canfod beth fyddwn yn chwilio amdano, yn arwain at rywun yn cael ei arestio bob tro. Mae llawer o opsiynau eraill ar gael, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Rydym yn galw'r rhain yn 'ganlyniadau cadarnhaol'. Gallai'r rhain gynnwys gwŷs i'r llys, rhybuddiad, rhybudd ynghylch khat neu ganabis, Hysbysiad Cosb am Anhrefn (PND) neu ddatrysiad cymunedol.

Fel pob heddlu arall, rydym newydd ddechrau casglu gwybodaeth ynghylch anlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, yn 2016, roedd 1,425 o ganlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i achlysuron stopio a chwilio.

Yn 2016, fe wnaethom ni gofnodi cyfradd o 48% o ganlyniadau cadarnhaol.

Pwy fyddwch chi'n eu stopio a'u chwilio?

Rydym yn wahanol i heddluoedd eraill oherwydd rydym yn plismona'r rheilffordd a gorsafoedd trenau ac yn cadw wyth miliwn a hanner o deithwyr yn ddiogel bob dydd. Mae hyn yn golygu nad oes gennym gymuned sefydlog o breswylwyr sy'n byw yn yr ardal rydym yn gyfrifol amdani. Fodd bynnag, byddwn yn casglu gwybodaeth ynghylch ethnigrwydd, rhywedd ac oedran y bobl rydym yn eu stopio a'u chwilio.

O'r holl bobl rydym wedi'u eu stopio a'u chwilio yn 2016, roedd 14% rhwng 10 ac 17 mlwydd oed, roedd 30% rhwng 18 a 24 mlwydd oed, ac roedd 40% rhwng 25 a 44 mlwydd oed. Roedd 85% o bobl oedd wedi'u stopio a'u chwilio'n ddynion, roedd 9% yn fenywod ac roedd 7% wedi'u cofnodi fel 'anhysbys'. Mae'r tabl isod yn dangos achlysuron o stopio a chwilio a gynhaliwyd yn 2016, wedi'u dadansoddi yn ôl hil.

	Asiaidd	Du	Gwyn	Arall	Anhysbys
Dadansoddiad yn ôl cyfran	7%	19%	73%	2%	0.4%
Canlyniadau cadarnhaol	50%	48%	48%	62%	38%

Mae'r mwyafrif o bobl byddwn yn eu stopio'n ddynion sy'n oedolion (85%). Anaml iawn y byddwn ni'n stopio a chwilio plant a phobl ifanc, ond pan wnawn ni, yn arbennig yn achos y rhai hynny rhwng 10 a 18 mlwydd oed, byddwn ni'n sicrhau y

cymerir camau diogelu priodol. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os na fydd canlyniad cadarnhaol, y byddwn ni'n gwarchod eu diogelwch a lles.

Oedran yr amrediad o bobl y gwnaethom ni eu stopio a'u chwilio yn 2016



Y nifer o bobl rhwng 10 ac 17 mlwydd oed y gwnaethom ni eu stopio a'u chwilio yn 2016

Oedran	Nifer	Canran
10	0	0%
11	0	0%
12	2	0.5%
13	16	4%
14	48	11%
15	92	21%
16	136	31%
17	140	32%

Wnaethom ni ddim stopio a chwilio unrhyw un oedd yn 10

Rhybuddion canabis

Mae'r nifer o bobl a gafodd rybuddion canabis yn dilyn stopio a chwilio yn 2016 (mae hyn yn golygu na chawson nhw eu harestio na chael euogfarn droseddol oherwydd y cyfanwm bychan o ganabis a ganfuwyd) yn dangos darlun gwahanol. Roedd 71% yn Wyn, roedd 17% yn Ddu, roedd 10% yn Asiaidd ac roedd 2% wedi'u cofnodi fel 'anhysbys'.

	Asiaidd	Du	Gwyn	Arall
Dadansoddiad yn ôl Ethnigrwydd	10%	17%	71%	2%

Mae'n rhaid delio â phobl rhwng 10 a 18 mlwydd oed ym mhresenoldeb oedolyn priodol. Roedd 56% o'r rhai hynny a gafodd rybuddion canabis rhwng 18 a 24 mlwydd oed, ac roedd 36% rhwng 25 a 44 mlwydd oed.

	10-18	18-24	25 – 44	45 – 64	Heb ei Ddatgan
Dadansoddiad yn ôl Oedran	1%	56%	36%	4%	2%

Roedd 89% o bobl a gafodd rybuddion canabis yn ddynion, roedd 6% yn fenywod ac roedd 5% wedi'u cofnodi fel 'anhysbys'.

	Dynion	Menywod	Anhysbys
Dadansoddiad yn ôl Rhywedd	89%	6%	5%

Nifer o achlysuron o stopio a chwilio 2016

Nifer o achlysuron o stopio a chwilio

- **Dwyrain – 705** o chwiliadau a wnaed = **24%** o gyfanswm y chwiliadau
- **De – 768** o chwiliadau a wnaed = **26%** o gyfanswm y chwiliadau
- **TfL – 480** o chwiliadau a wnaed = **16%** o gyfanswm y chwiliadau
- Cyfanswm y nifer o chwiliadau Is-adran B **1,953**
- **65%** o gyfanswm y nifer o chwiliadau stopio a chwilio gan BTP

- **Canolbarth Lloegr – 214** o chwiliadau = **7%** o gyfanswm y chwiliadau
- **Y Penwynion – 401** o chwiliadau = **13%** o gyfanswm y chwiliadau
- **Cymru – 142** o chwiliadau = **5%** o gyfanswm y chwiliadau
- **Gorllewinol – 188** o chwiliadau = **6%** o gyfanswm y chwiliadau
- Cyfanswm y nifer o chwiliadau Is-adran C **945**
- **32%** o gyfanswm y nifer o chwiliadau stopio a chwilio gan BTP

- **Yr Alban** – **97** o chwiliadau = **3%**

Fyddwch chi'n canfod yr eitemau byddwch chi'n chwilio amdanyn nhw, megis cyllyll, arfau neu gyffuriau?

Fyddwn ni ddim yn canfod yr eitemau byddwn ni'n chwilio amdanyn nhw bob tro, ond weithiau byddwn ni'n canfod arfau neu eitemau y gellid eu defnyddio i gyflawni trosedd. Yn 2016, fe wnaethom ni atafaelu mwy na 30 arf. Mae'r enghreifftiau isod yn arddangos ein bod yn canfod arfau ac yn atal pobl rhag niweidio pobl eraill neu gyflawni troseddau.

Canfuwyd y gyllell hon gan swyddogion heddlu yn Reading wedi i ymddygiad unigolyn ddwyn sylw Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (nad oes ganddo'r pŵer i stopio a chwilio ar wahân i bwerau penodol i chwilio am alcohol, tybaco neu dân gwyllt). Galwyd swyddog heddlu a thra'n cynnal stopio a chwilio, canfuwyd y gyllell gerllaw oherwydd roedd y PCSO wedi dweud ei fod wedi gweld yr unigolyn yn ei gwaredu. Cyhuddwyd yr unigolyn o feddiannu arf ymosodol a bydd yn ymddangos yn y llys.

Riportiwyd bod unigolyn yn bygwth teithiwr yng Ngorsaf Danddaearol High Barnet â TASER. Aeth swyddogion heddlu yno a chynhaliwyd stopio a chwilio. Canfuon nhw wn llonyddu. Cafodd yr unigolyn ei arestio a rhoddodd y llys orchymyn cymunedol a'i orfodi i gael triniaeth ynghylch ei ddefnydd o alcohol.

Cymerwyd y morthwyl hwn oddi wrth ddyn ym Mirmingham. Cafodd ei gyhuddo a bydd e'n ymddangos yn y llys.

Canfuwyd y torrwyr bolltiau hyn wedi i dri dyn gael eu stopio a'u chwilio yn Reading wedi i swyddogion heddlu ddechrau amau eu bod yn cuddio rhywbeth. Cafodd y dynion eu cyhuddo a byddan nhw'n ymddangos yn y llys.

Chwiliadau Adran 60

Fe wnaethom ni gynnal saith Chwiliad Adran 60 yn 2016. Roedd pob un o'r rhain wedi'i awdurdodi gan Brif Gwnstabl Cynorthwyol (ACC). Digwyddodd pedwar ohonyn nhw yn Rotherham mewn cysylltiad â phrotest gan y dde eithafol gan arwain at bedwar o bobl yn cael eu harestio.

Sut fyddwch chi'n dweud wrth bobl beth yw eu hawliau?

Rhoddir ffurflen benodol (neu gofnod o chwiliad) i bawb byddwn yn ei chwilio ac mae'n rhaid i'r swyddog heddlu ei llenwi ar y pryd. Hefyd byddwn yn rhoi cerdyn gwybodaeth i bobl sy'n esbonio eu hawliau mewn dull clir a syml. Defnyddir hyn hefyd gan y Gwasanaeth Heddlu Metropolitanaidd a Heddlu Dinas Llundain a gan nifer o heddluoedd eraill y tu allan i Lundain.
Mae ar gael yn Gymraeg hefyd.

Gwefan stopio a chwilio

Rydym wedi diweddaru ein gwefan i gynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch stopio a chwilio, gan gynnwys manylion ynghylch sut i gwyno a sut i roi adborth inni ynghylch ein perfformiad. Hefyd fe wnaethom ni greu animeiddiad i esbonio pam rydym yn defnyddio stopio a chwilio a beth all pobl sy'n cael eu stopio a'u chwilio ei ddisgwyl.

Beth alla i ei wneud os bydda i'n cael fy stopio a'm chwilio ac os na fyddaf i'n fodlon â'r driniaeth y byddaf i wedi'i chael?

Byddwch chi'n gweld manylion ynghylch sut allwch chi wneud cwyn yn y cerdyn gwybodaeth a roddir ichi gan y swyddog heddlu sydd wedi'ch stopio a'ch chwilio. Hefyd gallwch chi ddysgu sut i wneud cwyn ar ein gwefan.

Fe gawsom ni saith cwyn ynghylch ein defnydd o stopio a chwilio yn 2016 ond fe wyddom na fydd pawb sy'n anfodlon â stopio a chwilio yn rhoi gwybod inni. Hefyd gallwch chi gysylltu ag Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTPA), Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) neu grwpiau amrywiol sy'n monitro stopio a chwilio a all wrando ar eich pryderon a derbyn cwynion hefyd.
Bydd pob cwyn byddwn yn ei chael yn ysgogi 'sbardun' o dan y Cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio (BUSSS). Bydd hyn yn sicrhau ei bod yn cael ei

hymchwilio gan ein Hadran Safonau Proffesiynol (PSD) a ble dysgir gwersi, y byddan nhw'n cael eu hegluro i'n holl swyddogion heddlu.

Er gwaethaf y niferoedd isel o gwynion a gawsom ni yn 2016, dydyn ni ddim yn hunanfodlon ac rydym yn sylweddoli ei fod yn bosibl nad yw hyn yn adlewyrchu faint o bobl sy'n cael eu heffeithio gan ein dull o ddefnyddio stopio a chwilio mewn gwirionedd. Oherwydd hyn byddwn hefyd yn gwirio ein systemau er mwyn gweld a fydd unrhyw un (sydd wedi darparu ei fanylion) wedi'i stopio a'i chwilio fwy na theirgwaith mewn blwyddyn. Os byddwn yn nodi rhywun sydd wedi, byddwn yn cynnal adolygiad i ganfod a fyddan nhw'n cael eu dewis yn amhriodol neu eu targedu'n annheg. Os byddwn yn canfod unrhyw beth sy'n peri pryder, byddwn yn gweithredu'n briodol ac yn rhoi gwybod i'r unigolyn ein bod wedi gwneud hyn.

Ydych chi'n cydymffurfio â BUSSS?

Rydym yn cydymffurfio â phob un o chwech amod y Cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio (BUSSS). Roedd cyfnod byr o amser llynedd pan oedd rhaid inni newid ein prosesau casglu data a'n dull o riportio achlysuron stopio a chwilio er mwyn cydymffurfio'n llawn. Roedd rhaid inni hysbysu'r Ysgrifennydd Cartref nad oeddem yn gallu cydymffurfio â phob agwedd o BUSSS ar y pryd, felly fe wnaethom roi gwybodaeth ar ein gwefan i sicrhau ein bod yn agored a thryloyw ynghylch hyn.

Mae'r cynllun yn cyflwyno nifer o fesurau a luniwyd i greu mwy o dryloywder, atebolrwydd ac ymgysylltiad gan y gymuned yn y defnydd o bwerau stopio a chwilio. Rydym yn parhau i archwilio dulliau a wnaiff ganiatàu i ni wneud hyn yn well a gwella ein hymagwedd.

Yn 2016, aeth mwy na 30 o bobl ar batrôl gyda'n swydogion heddlu fel rhan o'r Cynllun Arsylwi Patrolau'r Heddlu. Byddwn ni'n sicrhau y bydd pawb sy'n gwirfoddoli gyda ni yn cael cyfle i wneud hyn yn 2017.

Pwy sy'n craffu ar eich gwaith?

Mae Grŵp Llywio Stopio a Chwilio, sy'n cwrdd bob tri mis ac a gadeirir gan ei Dirprwy Brif Gwnstabl. Mae'r grŵp hwn yn sicrhau fod uwch-swyddogion heddlu yn atebol trwy ofyn iddyn nhw esbonio beth maen nhw'n ei wneud i sicrhau bod eu swyddogion heddlu yn stopio a chwilio mewn ffordd deg, effeithiol a chyfreithlon. Hefyd rhennir enghreifftiau o arfer da gydag eraill yng nghyfarfodydd y grŵp hwn.

Hefyd mae Grŵp Yngynghori Cymunedol, sydd hefyd yn cwrdd bob tri mis ac a gadeirir gan gadeirydd Annibynnol. Bydd aelodau'r cyhoedd yn mynychu'r cyfarfod hwn. Bydd aelodau'r grŵp yn sicrhau ein bod yn atebol am ein holl weithgarwch stopio a chwilio.

Hefyd mae paneli craffu cymunedol lleol a gynhelir yn fisol ledled y wlad. Bydd cofnodion stopio a chwilio unigol (â'r manylion personol wedi'u dileu) yn cael eu harchwilio a rhoddir adborth i swyddogion heddlu ac uwch-swyddogion.

Hefyd rydym wedi cyflwyno proses newydd ar ein system gyfrifiadurol sy'n sicrhau bod goruchwylwyr yn rhoi adborth i'r swyddogion heddlu maent yn eu rheoli.

Ymgysylltu â phobl ifanc

Rydym yn nodi nad yw pawb sy'n darllen hwn yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan stopio a chwilio. Gallwn ni, fel pob gwasanaeth heddlu, brofi anawsterau wrth geisio ymgysylltu â rhai adrannau o'n cymuned, gan gynnwys pobl ifanc, felly rydym yn ymdrechu'n fwy i sicrhau ein bod yn gwneud hyn.

Rydym wedi penodi uwch-swyddog heddlu i gydgysylltu ein hymdrechion i ymgysylltu â phobl ifanc. Byddwn yn siarad â phobl ifanc am beryglon tresmasu ac, ar yr un pryd, byddwn yn cael trafodaethau ynghylch beth mae stopio a chwilio yn ei olygu a beth allan nhw ei ddisgwyl gennym.

Rhai enghreifftiau o'n dulliau o ymgysylltu â phobl ifanc

Gweithio gyda Paul Anderson OBE o VOYAGE (Voice of Youth and Genuine Empowerment) – 'Over-policed and under-protected'

Fe wnaethom glywed gan bobl ifanc, a elwir yn arweinwyr ifanc, sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan stopio a chwilio. Gwnaeth y grŵp 15 argymhelliad, gan gynnwys 'Dylai arweinwyr ifanc gael eu hannog i ymgeisio i bob Grŵp Cynghori Annibynnol (IAGs)'. Byddwn ni'n gwahodd pobl ifanc i fynychu ein IAGs a Grwpiau Ymgynghori Cymunedol ledled y wlad.

Gweithio gyda Sulaimaan Samuel – cyflwyniad 'Behind the Headlines'

Bydd y cyflwniad hwn yn gofyn i bobl ifanc ddychmygu eu hunain yn sefyllfa dioddefwr trosedd. Yna bydd yn trafod yr opsiynau sydd ar gael a'u disgwyliadau o'r heddlu ynghylch stopio a chwilio. Hefyd bydd yn trafod senarios pan fydd seiliau rhesymol. Cyflwynwyd y gweithdy hwn i Academi yn Leeds yn Rhagfyr 2016.

Gweithio gydag Arc Theatre – y ddrama 'Stop and think'

Mae hyn yn defnyddio theatr fyw i wella ymwybyddiaeth o stopio a chwilio a chafodd ei chyflwyno i dros 300 o bobl ifanc yn Nwyrain Llundain yn Ionawr 2017.

Byrddau Cyfarfodydd Cyhoeddus yr Heddlu

Mynychwyd y cyfarfodydd hyn gan 120 o bobl ac, am y tro cyntaf, roedden nhw'n cynnwys Llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, heddluoedd, grwpiau cymunedol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs). Roedd y ffaith bod Paul a Sulaimaan wedi'u cynnwys wedi helpu i lywio'r ffordd orau i'r holl heddluoedd, gan gynnwys BTP, i ymgysylltu â phobl ifanc.

Ein taith

Mae'r nifer o chwiliadau wedi gostwng o 9,443 yn 2012 i 2,995 yn 2016

2012

- Fe wnaethom ni gynnal 9,443 o achlysuron stopio a chwilio â chyfradd arestio o 9%
- Darparwyd goruchwyliaeth gymunedol gan Grwpiau Cynghori Annibynnol (IAGs)

2013

- Fe wnaeth Yr Ysgrifennydd Cartref lansio ymgynghoriad ynghylch stopio a chwilio a chomisiynu'r Coleg Plismona i edrych ar hyfforddiant stopio a chwilio.
- Fe wnaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) gyhoeddi 'Pwerau Stopio a Chwilio - a yw'r heddlu'n eu defnyddio'n deg?', gan wneud 10 argymhelliad ar gyfer pob heddlu.

2014

- Ebrill - Cyhoeddwyd Cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio (BUSSS), cynllun gwirfodool i wella stopio a chwilio, gan Yr Ysgrifennydd Cartref.
- Awst - Fe wnaeth pob heddlu, gan gynnwys BTP, gytuno i gydymffurfio â BUSSS

2015

- Cynhaliwyd arolygiad HMIC, 'Pwerau Stopio a Chwilio 2 - a yw'r heddlu'n eu defnyddio'n deg?', a gwnaed 12 argymhelliad arall i ychwanegu at argymhellion 2013
- Fe wnaethom ni sefydlu Grŵp Aur Llywio Stopio a Chwilio (yr SSG erbyn hyn)
- Fe wnaethom ni sefydlu Grŵp Ymgynghori Cymunedol (CCG)

2016

- Chwefror - Cynhaliwyd ein panel craffu cymunedol cyntaf yn Leeds
- Hydref - Fe wnaeth y CCG ddewis ei gadeirydd a'i is-gadeirydd annibynnol cyntaf
- Fe wnaethom ni gynnal 2,995 o achlysuron stopio a chwilio â chyfradd arestio o 16%

2017

- Fe wnaeth ein Grŵp Cynghori Annibynnol yn yr Alban (SIAG) gynnal panel craffu
- Cynhaliwyd CCG rhanbarthol a phanel craffu yn Llundain
- Cyflwynwyd goruchwyliaeth fwy caeth ac adolygiadau cyson o weithgarwch stopio a chwilio o Ringyll i Uwch-arolygydd
- Cynhaliwyd y CCG cyntaf dan ofal cadeirydd annibynnol

Ers 2012, mae'r gyfran o achlysuron stopio yn arwain at arestio wedi cynyddu o 9% i 16%

Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'n rhaid i'n holl weithgarwch stopio a chwilio fod o fudd i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn nodi bod stopio a chwilio'n faes cymhleth a senitif o blismona a all effeithio'n fawr ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu os na fyddwn yn defnyddio ein pwerau'n gywir.

Rydym yn credu ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol i wella ein dealltwriaeth a'n dull o ddefnyddio'r pŵer hwn.

Byddwn ni'n parhau i roi sylw manwl i ddull ein swyddogion o ddefnyddio stopio a chwilio ac rydym yn anelu at roi hyder ichi ein bod yn defnyddio'r pŵer hwn mewn ffordd deg, effeithiol a chyfreithlon.

Yn 2017 byddwn ni'n canolbwyntio ar:

- Gymesuredd – rydym yn dymun sictrhau na fyddwn yn targedu unrhyw un yn annheg

- Gwella ein data – rydym wedi buddsoddi mewn systemau cyfrifiadurol newydd ac mae angen inni sicrhau ein bod yn casglu'r wybodaeth gywir ac yn ei defnyddio'n ddoeth.

- Gwella canlyniadau cadarnhaol – mae angen inni roi sicrwydd ichi na fyddwn ni'n chwilio rhywun heb seiliau rhesymol nac amheuon gwrthrychol dilys y byddwn ni'n canfod beth fyddwn yn edrych amdano. Byddwn ni'n gwneud hyn trwy esbonio'n glir pam ein bod wedi penderfynu chwilio rhywun ac yn disgrifio beth byddwn wedi'i ganfod o ganlyniad i hynny.

- Hyder swyddogion heddlu – mae'n rhaid inni sicrhau bod ein swyddogion heddlu'n deall pam y gall y pŵer hwn fod yn effeithiol o ran canfod arfau, eitemau wedi'u dwyn a chyffuriau anghyfreithlon, yn ogystal ag ystyr defnydd teg ac effeithiol a'r effaith bydd yn ei chael os na chynhelir stopio a chwilio'n gywir. Hefyd mae'n rhaid inni sicrhau bod y goruchwylio a chraffu sy'n digwydd yn gymesur.

Hyfforddiant Ymarfer Broffesiynol Awdurdodedig (APP)

Mae'r Coleg Plismona, ar y cyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), wedi bod yn gweithio i wella'r hyfforddiant, safonau, a cyfarwyddyd proffesiynol ynghylch stopio a chwilio.

Roedd hyn yn cynnwys proses ymgynghori gynhwysfawr gyda'r cyhoedd, rhanddeiliaid allweddol, grwpiau cymunedol a swyddogion heddlu ac roedd wedi'i ategu gan ymchwilio, dadansoddi a phrofi hyfforddiant newydd yn eang. Mae hyn

wedi arwain at safonau cenedlaethol newydd, rhaglenni dysgu, acymarfer broffesiynol awdurdodedig ar gyfer stopio a chwilio.

Er mwyn hyfforddi a datblygu ein swyddogion heddlu'n llawn, byddwn ni'n mabwysiadu'r pecyn stopio a chwilio APP cenedlaethol, sy'n cynnwys cwrs dau ddiwrnod i ymarferwyr mewn ystafell ddosbarth ar gyfer pob cwnstabl a rhingyll yr heddlu, a bydd angen iddynt eistedd arholiad terfynol.

Galluoedd o ran camerâu fideo a thechnoleg symudol a wisgir ar y corff

Yn 2017, rydym yn disgwyl cynyddu ein galluoedd ynghylch camerâu fideo a wisgir ar y corff. Disgwylir i'n swyddogion heddlu ddefnyddio camerâu fideo a wisgir ar y corff i recordio'r defnydd o bwerau'r heddlu, gan gynnwys pob achlysur stopio a chwilio.

Byddwn ni'n cadw recordiadau am 12 mis fel y byddan nhw ar gael i graffu arnynt neu i'w harchwilio yn dilyn unrhyw gŵyn.

Bydd y defnydd o'r dechnoleg hon yn helpu i sicrhau bod ein swyddogion heddlu'n parhau i weithredu mewn modd proffesiynol, a bydd yn sicrhau eu bod yn atebol ac yn effeithio'n gadarnhaol ar ymddygiad.

Hefyd rydym yn gweithio i drefnu bod ein gofynion ynghylch recordio stopio a chwilio ar gael i'n swyddogion heddlu ar ddyfeisiau symudol. Bydd hyn ei wneud yn haws iddyn nhw recordio gwybodaeth gywir ynghylch pam fyddan nhw wedi stopio rhywun a beth fyddan nhw wedi'i ganfod yn y fan a'r lle. Yn bwysig, bydd yn galluogi'r data i gael eu lanlwytho ar unwaith i'n systemau electronig, ac yn lle cael copi wedi'i ysgrifennu â llaw, darperir derbyneb i'r unigolyn sydd wedi'i chwilio.

Cysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol

Cysylltu â ni

Os hoffech chi ddarparu adborth neu ofyn cwestiwn inni, e-bostiwch
stopsearch@btp.pnn.police.uk

Ein harweinydd strategol yw'r Uwch-arolygydd Richard Moffatt
richard.moffatt@btp.pnn.police.uk

Ein Harolygydd yw'r Arolygydd/H Rob Johnson
rob.johnson@btp.pnn.police.uk

Hefyd gallwch chi ysgrifennu atom yn
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, 25 Camden Road, Llundain, NW1 9LN

Dysgu rhagor ar-lein

Gwefan BTP
btp.police.uk

Animeiddiad – Pam mae ar yr heddlu angen stopio a chwilio?
btp.police.uk/stopsearch

Sut i gwyno am stopio a chwilio wrth BTP
btp.police.uk/complaints

Cod Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)
Chwilio gov.uk am 'ddeddf yr heddlu a thystiolaeth droseddol'

Cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio (BUSSS)
Chwilio gov.uk am 'ddefnydd gorau o stopio a chwilio'

Ymarfer Broffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ynghylch stopio a chwilio
Chwilio college.police.uk am 'APP stopio a chwilio'